**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**
**Legislation Committee No.2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

John Pockett
Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru
1 Lewis Terrace
Darren Parc
Pontypridd
CF37 2AF

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) – tystiolaeth ychwanegol i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**

21 Mai 2010

Annwyl John,

1. Yn ddiweddar, buoch yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) ar ran Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru. Rydwyf yn ddiolchgar iawn ichi am fynychu'r cyfarfod ac am gyfrannu at sesiwn dystiolaeth hynod ddefnyddiol.

2. Yn anffodus, ni chafwyd amser i drafod yr holl faterion ar 20 Mai. Rwy'n ysgrifennu atoch felly i ofyn a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol yn ysgrifenedig:

a) Dywedoch yn eich tystiolaeth ysgrifenedig:

   "a statutory duty should be imposed on Welsh Ministers to consult affected parties before introducing standards regulations and that a full and proper cost/benefit analysis should be an essential precursor to the introduction of any new standards."

   A allwch chi ymhelaethu ar eich sylwadau ynghylch ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt cyn cyflwyno rheoliadau safonau a phwy ddylai gynnal dadansoddiad o'r costau a'r manteision?

b) Yr ydych yn datgan bod eich profiad yn dangos bod y costau yn debygol o fod yn uwch na'r amcangyfrifon yn y Nodiadau Esboniadol {"costs are likely to be in excess of the estimates contained in the Explanatory Notes."] A allwch chi ymhelaethu ar y datganiad hwn?

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Legislation Office
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 02920 898101
E-bost / Email: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

c) A allech chi esbonio ymhellach beth yw eich pryderon ynghylch cynnwys y Cynllun Teithio Rhatach a sut y gallai dynnu rhai gweithredwyr i mewn i ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig?

3. A fyddech cystal ag ateb erbyn 4 Mehefin.

4. Os nad yw'r cwestiynau'n glir, mae croeso i chi gysylltu ag Owain Roberts, Dirprwy Glerc y Pwyllgor ar 029 2089 8101 (owain.roberts@cymru.gsi.gov.uk) i drafod y cwestiynau ymhellach.

Yn gywir,

Val Lloyd

Val Lloyd AC
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2